

ARGYMHELLION PWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 15^{fed} CHWEFROR 2018
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Erwyn Jones - Cadeirydd
Mel Goch ap Meirion
Will G Roberts
Bedwyr Gwilym
Glyn Daniels
Mark Thomas
Aelodau o Fwrdd Antur Stiniog

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Rory Francis

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. Antur Stiniog

Cafwyd trafodaeth gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Antur Stiniog Trafod ynglŷn â dyfodol adeilad 5 Stryd Fawr. Ni chafwyd unrhyw bris tebygol gan Antur Stiniog. Cafwyd cynnig i gyd-weithio gydag Antur Stiniog er mwyn mynd am grantiau i wella'r adeilad.

Argymhelliad:

I drafod hyn ymhellach mewn cyfarfod o Bwyllgor y Cyngor nos Fercher 28^{ain} o Chwefror yn y Siambr am 7.00 o'r gloch

2. Adroddiad Caeau Chwarae

Bu i'r Pwyllgor drafod adroddiadau misol y caeau chwarae

Argymhell: I dderbyn yr adroddiadau ac i edrych ar seddi y siglenni ar gae Baltic a Chae Sgwâr Oakeley.

3. Y Parc

Cafwyd gwybodaeth bod gyrrwr car wedi gyrru i fewn i ffens y Parc ac wedi gwneud difrod i'r ffens Fictoraidd gwreithiol a'r gwrych. Mae cwmni wedi bod draw i edrych ar y difrod a disgwylir amcanbris o'r costau yn fuan.

Argymhelliad: I gadw mewn cysylltiad â'r heddlu ac i gadw cofnod o'r costau (gan gynnwys costau Clerc y Dref yn delio a hyn) er mwyn ceisio cael iawndal am y colledion ariannol fydd yn dod o hyn.

4. Pafiliwn y Parc

Cafwyd gwybodaeth bod angen gwelliannau ar y pafiliwn cyn ei gynnig i'w osod. Mae angen diweddarau'r sustem dŵr poeth, goleuadau tu fewn ac allan, a man waith eraill.

Argymhelliad: I dderbyn bod angen man welliannau ac i drefnu i wneud y gwaith cyn gynted â modd.

5. Caffi'r Parc

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â thelerau ar gyfer gosod Caffi'r Parc. Roedd manylion wedi eu paratoi a chytunwyd i ofyn am flaendal o £500 tuag at y gost o drydan yn y pafiliwn. Cafwyd sgwrs ynglŷn ag oedd angen i'r Cyngor Tref gofrestru fel landlord.

Argymhelliad: I holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â chofrestru fel landlord cyn symud ymlaen i osod y pafiliwn.

6. **Cyfrif y Caban**

Mae arian ar gael yng nghyfrif y Caban, arian sydd i'w wario ar henoed yr ardal yn unig. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â thalu i'r cleientiau sydd yn defnyddio'r Ganolfan Dydd gael mynd am ginio Dydd Gŵyl Dewi.

Argymhelliad: Cytunwyd i dalu am ginio Dydd Gŵyl Dewi i gleientiau'r Ganolfan Dydd mewn man o'u dewis nhw hyd at swm o tua £250.

7. **Anrhegion Patagonia**

Cafwyd gwybodaeth bod gofod ar gael yn y Llyfrgell i gynnal arddangosfa o anrhegion a dderbyniwyd o Batagonia adeg y trfeillio.

Argymhelliad: Cytunwyd i arddangos yr anrhegion yn y Llyfrgell.